Cadw Cymru'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

Keep Wales Safe. Keep Wales Learning.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# COVID-19: Canllawiau i gefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid i gynyddu gweithrediadau mewn modd diogel a graddol

© Hawlfraint y Goron Awst 2020

WG41096 ISBN digidol 978 1 80082 003 6

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**1. Cefndir** **3**

**2. Llywio gwaith cynllunio a'r broses gwneud penderfyniadau** **4**

**3. Canllawiau gweithredol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid** **6**

**Atodiad A: Cynyddu gweithrediadau ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru – rhestr wirio enghreifftiol** **13**

**Atodiad B: Cefnogi gwybodaeth wyddonol – deall trosglwyddiad, risgiau, a chamau lliniaru (yn cynnwys opsiynau ar gyfer cyflwyno gweithrediadau yn raddol)** **16**

# Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer y sawl sy'n rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid ym mhob rhan o'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, neu mewn partneriaeth yng Nghymru. Ei nod yw eu cefnogi i gynllunio i gynyddu gweithrediadau yn raddol, fesul cam, ac yn unol â chyd-destun iechyd y cyhoedd. At ddiben y ddogfen hon, gwasanaethau gwaith ieuenctid yw'r rheini sy'n defnyddio dulliau gweithredu gwaith ieuenctid i alluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn modd cyfannol, gan gydweithio â nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas ac i gyflawni eu potensial llawn' (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol). Maent wedi'u datblygu yng nghyd-destun ein nodau strategol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn yn gyffredinol eu natur a dylid eu trin fel canllaw. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng unrhyw ddeddfwriaeth gymwys (yn cynnwys y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch) a'r canllawiau hyn, y ddeddfwriaeth gymwys fydd drechaf.

## Cwmpas

Gwneir unrhyw benderfyniad i gynyddu gweithrediadau gan bob sefydliad unigol sy’n darparu gwasanaethau ieuenctid, boed yn y sector gwirfoddol neu dan arweiniad awdurdod lleol, ac ar draul y sefydliadau hynny. Er bod y ddogfen hon yn cynnig canllaw defnyddiol, rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir gyd-fynd â deddfwriaeth gymwys, yn cynnwys deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19, dogfennau canllaw statudol, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun.

Nid yw'r canllawiau hyn yn gynhwysfawr, nac yn gyfarwyddiadol, ond maent yn cynnig egwyddorion lefel uchel i'w hystyried. Mae'n ddogfen weithredol a gaiff ei diweddaru yn ôl y gofyn, os bydd cyd-destun iechyd y cyhoedd a chanllawiau diweddaraf y llywodraeth yn newid.

Bwriedir i'r ddogfen hon gynnwys y cyfraniadau a wneir gan y sector gwirfoddol a gwasanaethau gwaith ieuenctid awdurdodau lleol ac adlewyrchu'r cyfraniadau hynny. Os bydd unrhyw ansicrwydd, dylid ystyried bod cyfeiriadau at y gweithlu yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gwirfoddol a chyflogedig.

Ymhellach, ac fel gyda phob gwasanaeth sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc, mae eu llais a'u cyfranogiad yn allweddol. Felly, ni fwriedir i'r ddogfen hon ddisodli'r angen i bob gwasanaeth gwaith ieuenctid ymgysylltu â llais a safbwyntiau'r bobl ifanc maent yn cydweithio â nhw a'u hymgorffori yn eu cynlluniau datblygol ar gyfer cynyddu gweithrediadau.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r wybodaeth ategol yn Atodiadau A a B, sy'n cynnwys rhestr wirio i gefnogi gwaith cynllunio gwybodaeth wyddonol grynodol o'r Coronafeirws.

# 1. Cefndir

Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn cynnig ymyriadau ataliol hanfodol ac maent yn cyfrannu'n helaeth at yr ymdrechion i adfer ac ailadeiladu ar ôl COVID yng Nghymru. Mae gwaith ieuenctid yn cynnig llefydd diogel i bobl ifanc, ac yn atgyfnerthu eu cydberthnasau â'u cyfoedion ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt, gan hyrwyddo eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae hefyd yn helpu pobl ifanc i fagu hyder, meithrin sgiliau, a chynnal eu hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'r ymarfer a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir mewn gwaith ieuenctid yn gosod esiampl o'r disgwyliadau a'r ymddygiadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), yn cyfrannu at y nodau llesiant, ac yn cyflawni yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r canllawiau hyn wedi arloesi dulliau gweithredu i gyflawni gwaith ieuenctid drwy ddulliau allgymorth a digidol ers i'r cyfyngiadau symud gael eu rhoi ar waith, ac wedi cefnogi pobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau. Eu nod bellach yw cefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid i gynllunio ar gyfer cynyddu gweithrediadau yn raddol mewn modd sy'n ddiogel mewn perthynas â COVID ac yn unol â chyd-destun presennol iechyd y cyhoedd.

## 2. Llywio gwaith cynllunio a'r broses gwneud penderfyniadau

Nid y ffaith bod angen wedi'i nodi i gynyddu gwaith ieuenctid yw'r unig ffactor wrth asesu a chytuno a ellir cynyddu gweithrediadau. Yn wir, mae'n llawer mwy tebygol i'r penderfyniad hwn gael ei lywio gan y mathau o weithgareddau sydd dan sylw, defnyddwyr y gwasanaethau ac ym mha leoliad y mae'r gweithgareddau yn digwydd. O ganlyniad, wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch cynyddu gweithrediadau, **efallai y bydd angen ichi ystyried ac adlewyrchu'r gofynion a nodir mewn dogfennau canllaw eraill a'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rheoli'r gwaith o'u cyflawni.** Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn amrywiol ac ni ellir adlewyrchu'n gywir yr holl fodelau cyflawni na rhoi cyfrif amdanynt mewn un dull gweithredu cyffredinol.

**Er enghraifft:** gall model cyflawni dewisol gwasanaeth gwaith ieuenctid gynnwys chwaraeon, gall fod wedi'i leoli mewn canolfan gymunedol, neu gall gynnwys gwaith grŵp gyda phobl ifanc dros nifer benodol. Yn yr achosion hyn, yn ogystal â'r canllawiau hyn, byddai hefyd angen i chi ystyried canllawiau sy'n benodol i'r sector a chyngor ar gadw pellter cymdeithasol:

Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol

Canllawiau ar gyfer defnyddio canolfannau cymunedol amlbwrpas yn ddiogel

Cadw pellter cymdeithasol (Y gyfraith, canllawiau a chwestiynau cyffredin)

Felly, nid yw'r hyn sy'n ymddangos yn yr adran ganlynol yn gynhwysfawr, a bydd yn dibynnu ar y math o wasanaeth rydych yn bwriadu ei ddarparu. Fodd bynnag, gall eich helpu i addasu eich model cyflawni, drwy eich cyfeirio at ddogfennau canllaw perthnasol sy'n rheoli sectorau a chyd-destunau gwahanol, a'ch helpu i benderfynu beth allai fod yn addas i chi. Rhaid i unrhyw benderfyniad i gynyddu gweithrediadau gydbwyso risgiau trosglwyddiad cynyddol yn ofalus â'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â gweithredu neu beidio â chyflwyno gweithgaredd â phobl ifanc, yn cynnwys y bobl ifanc mwyaf agored i niwed neu sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf.

### Pwy sy'n gwneud y penderfyniad ar gynyddu gweithrediadau?

Yng nghyd-destun presennol iechyd y cyhoedd, ac ar y cam hwn o leddfu'r cyfyngiadau symud, gwasanaethau gwaith ieuenctid y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn unigol am wneud penderfyniadau ar gynyddu unrhyw weithrediadau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Nhw sydd hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gynyddu'r defnydd o unrhyw leoliadau, canolfannau neu adeiladau maent yn bwriadu eu defnyddio ac sy'n eiddo iddynt. Drwy gymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau hyn, dylent sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag unrhyw ofynion deddfwriaethol/iechyd a diogelwch a roddir arnynt, gan sicrhau eu bod wedi cymryd camau i fodloni'r gofynion hyn, a bod eu cynnig yn ddiogel mewn perthynas â COVID.

Byddai angen i unrhyw wasanaethau gwaith ieuenctid sy'n defnyddio rhan o ganolfan gymunedol ystyried y canllawiau hyn a chydgysylltu â rheolwyr canolfannau cymunedol, a fyddai'n gorfod ystyried y canllawiau ar gyfer canolfannau cymunedol, y gweithgaredd arfaethedig, a gofyn am ganiatâd yr awdurdod lleol. Bydd

gwasanaethau sy'n llogi lleoliadau sector preifat i gynnal gweithgareddau yn gallu gwneud hynny, cyhyd â bod y sefydliad maent yn llogi ganddo yn gweithredu yn unol â'r canllawiau sy'n benodol ar gyfer ei sector a gofynion cyffredin mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol a bod y gweithgaredd arfaethedig yn ddiogel mewn perthynas â COVID. Gall unrhyw wasanaeth gwaith ieuenctid gynnal gweithgareddau/gwaith allgymorth yn yr awyr agored, ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion cyffredinol mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n ddiogel mewn perthynas â COVID.

## 3. Canllawiau gweithredol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid

Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn amrywiol ac efallai y byddant yn ymddangos hyd yn oed yn fwy gwahanol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Mae'r amrywiaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried eu modelau cyflawni arfaethedig yng nghyd-destun eu hamgylchiadau unigryw, yn ogystal ag ochr yn ochr ag unrhyw rwymedigaethau sydd arnynt fel rhan o gyfyngiadau neu ddeddfwriaeth COVID-19, i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel. Oherwydd yr amrywiaeth hon, ni fydd y ddogfen hon yn cynnig un dull sy'n addas i bawb. Yn hytrach, mae'n ceisio dwyn ynghyd feysydd allweddol y gallech fod am eu hystyried fel mesurau gofynnol er mwyn helpu i sicrhau bod eich cynigion yn ddiogel mewn perthynas â COVID, ac mae'n cynnig rhestr wirio i'ch helpu i gynllunio (Atodiad A).

### A. Ymgysylltu â phobl ifanc, y gweithlu a phartneriaid

Bydd prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu clir, a mabwysiadu dulliau gweithredu cyfranogol lle y bo'n briodol, yn allweddol er mwyn deall sut mae pobl ifanc yn teimlo a'r hyn y maent am ei weld fel rhan o unrhyw gamau arfaethedig i gynyddu gweithrediadau. Gall eu helpu i ddeall yn well y wyddoniaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19, ynghyd â'u rôl o ran lleihau'r risg o'i drosglwyddo. At hynny, unwaith y bydd model cyflawni wedi dechrau cael ei sefydlu, bydd prosesau ymgysylltu da yn helpu i rannu unrhyw gamau ychwanegol rydych yn eu cymryd i ddiogelu eu llesiant, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw reolau neu weithdrefnau newydd yn glir. Gallai hyn gynnwys egluro'r ffordd y gall pobl ifanc nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn bod yn bresennol, a'r ffordd y byddwch yn ymateb i bobl ifanc sy'n cyrraedd yn ddirybudd. Bydd hyn yn eich helpu i gynllunio'n well ar gyfer yr hyn rydych yn ei gynnig ac yn sicrhau bod aelodau o staff ar gael. Bydd hefyd yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau neu'r camau a gymerir os bydd rhywun yn mynd yn sâl.

Dylid addasu'r egwyddorion hyn gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau, yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, ymddiriedolwyr a phartneriaid allweddol eraill.

Dylech gytuno ar brotocolau traws-sefydliadol a'u rhoi ar waith os bydd y cyfleusterau'n cael eu rhannu â sawl partner. Yn olaf, dylech gydgysylltu â darparwyr yswiriant perthnasol i sicrhau bod gennych yswiriant priodol, a dylai pob sefydliad unigol gymryd cyfrifoldeb am hyn.

### B. Cyfrifoldebau allweddol ac egwyddorion craidd

Mae gan bawb gyfrifoldeb i ddeall eu rôl o ran helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 a cheir gwybodaeth ychwanegol a all eich helpu i ddeall hyn yn Atodiad B. Yn ogystal, dylai gwasanaethau gwaith ieuenctid ystyried eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr. Rhaid i fusnesau y caniateir iddynt weithredu, neu safleoedd y caniateir iddynt agor, wneud hynny mewn ffordd ddiogel sy’n cydymffurfio â rheoliadau COVID, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill a osodir ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch).

Gall fod gan wasanaethau gwaith ieuenctid hefyd ddyletswydd gofal i wirfoddolwyr i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, na chânt eu hamlygu i risgiau o ran eu hiechyd a'u diogelwch a'u bod yn cael yr un lefel o ddiogelwch â gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig – ceir gwybodaeth gan y llywodraeth am wirfoddoli yn ystod pandemig y coronafeirws a sut i helpu'n ddiogel. Dylai gwirfoddolwyr ac unigolion eraill sy'n gwarchod barhau i ddilyn cyngor y llywodraeth ar warchod.

Dylai unrhyw gynlluniau i ailagor gyd-fynd â chanllawiau COVID craidd iechyd y cyhoedd mewn perthynas ag iechyd, hylendid a chadw pellter cymdeithasol, a chanllawiau ar gadw'n ddiogel yn y gwaith, er mwyn sicrhau bod cyflogeion a chydweithwyr yn ddiogel i ddychwelyd i'r gwaith.

Mae gan unrhyw un sy'n rheoli safle annomestig (fel canolfan gymunedol, neuadd bentref neu neuadd gymunedol) gyfrifoldebau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch neu ddyletswyddau gofal. Dylent gymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod y safle, y mynediad i'r safle, ac unrhyw gyfarpar neu sylweddau a ddarperir yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd hefyd angen i ddarparwyr gwasanaethau gwaith ieuenctid ystyried pa gyfrifoldebau cyfreithiol y gallai fod ganddynt, o dan reoliadau COVID, i gynnal gweithgareddau mewn lleoliadau eraill, yn cynnwys yn yr awyr agored neu mewn lleoliadau a gaiff eu llogi. Bydd angen i ddarparwyr gynnal asesiadau risg addas a digonol a sefydlu mesurau sy'n cydymffurfio â rheoliadau COVID.

## C. Asesiad risg

Er mwyn eich helpu i benderfynu pa gamau y dylid eu cymryd i gynyddu gweithrediadau, **dylid cynnal asesiad risg COVID-19**, gan ystyried y canllawiau craidd ar gadw pellter cymdeithasol a'r pwyntiau a nodir isod – gweler y canllawiau ar gwblhau asesiad risg.

Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am leoliad neu am weithgareddau gwasanaeth ieuenctid gynnal eu hasesiad risg eu hunain, gan ystyried unrhyw ganllawiau sy'n berthnasol i'w gweithgaredd neu sector penodol.

## D. Cadw pellter cymdeithasol a phennu capasiti

Dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio lleoliadau yn dilyn y canllawiau diweddaraf ar gadw'n ddiogel a chadw pellter cymdeithasol. Dylech ystyried a nodi'r mesurau lliniaru y byddwch yn eu cyflwyno yn eich asesiad risg.

Os ydych yn ystyried agor safle ffisegol, bydd maint ac amgylchiadau'r adeilad yn dylanwadu ar uchafswm nifer y bobl a nifer y gweithgareddau y gellir eu caniatáu wrth gadw pellter cymdeithasol. Wrth ddiffinio nifer y bobl a all fynychu'n rhesymol gan ddilyn y canllawiau cadw pellter, dylid ystyried yr holl arwynebedd llawr yn ogystal â phwyntiau cyfyng ac ardaloedd prysur (e.e. mynedfeydd ac allanfeydd) a lle y bo'n bosibl dylid cyflwyno llwybrau amgen neu unffordd.

Dylai asesiad risg bennu uchafswm nifer y bobl y gellir eu caniatáu mewn lleoliad, neuadd neu safle a gaiff ei logi wrth gadw pellter cymdeithasol yn unol â'r canllawiau perthnasol. Dylai hefyd nodi mannau risg uchel yn yr adeilad a chamau lliniaru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Dylai'r sawl sy'n bwriadu cynyddu gweithrediadau hefyd

ystyried pa newidiadau y gallai fod eu hangen i sicrhau y gellir cael mynediad i'r adeilad a'i ddefnyddio'n ddiogel. Gall y rhain gynnwys:

**Defnyddio sawl allanfa a mynedfa** – cyflwyno llif unffordd i mewn ac allan o'r safle, gyda marciau llawr neu arwyddion priodol. Dylai unrhyw newidiadau i fynedfeydd, allanfeydd a chiwiau ystyried yr angen i wneud addasiadau rhesymol i'r sawl sydd eu hangen, fel pobl ag anableddau.

**Rheoli amseroedd cyrraedd a gadael** grwpiau gwahanol er mwyn lleihau tagfeydd wrth allanfeydd a mynedfeydd.

**Rheoli ciwiau** – dylid rheoli llif grwpiau i mewn ac allan o'r safle yn ofalus er mwyn lleihau'r risg o dagfeydd. Gall fod angen cyflwyno systemau ciwio gan gadw pellter cymdeithasol.

**Defnyddio ardaloedd yn yr awyr agored** – mae gweithgareddau a gynhelir yn yr awyr agored yn llawer mwy diogel na rhai a gynhelir dan do ac, oherwydd hyn, dylai sefydliadau ddefnyddio ardaloedd yn yr awyr agored lle y bo'n bosibl. Wrth ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn yr awyr agored, dylech sicrhau eich bod yn dilyn y canllawiau sy'n berthnasol ar gyfer eich gweithgaredd a sicrhau bod protocolau cadw pellter cymdeithasol ar waith bob amser. Gall y canllawiau chwaraeon a hamdden eich helpu i gynllunio hyn.

**Awyru mewn ardaloedd dan do** – dylid cynnal gweithgareddau dan do mewn ardaloedd o'r adeilad sy'n cael digon o aer ac agor drysau neu ffenestri pan fo hynny'n bosibl.

**Teithio**

Dylai'r rheini sydd am ddefnyddio gwasanaeth gwaith ieuenctid ystyried pa mor bell y mae angen iddynt deithio a sut y byddant yn teithio i'r adeilad ac oddi yno yn ddiogel. Dylai aelodau o'r un aelwyd deithio gyda'i gilydd. Wrth gludo pobl ifanc i weithgaredd ac oddi yno lle mai dyna'r unig ffordd o ddarparu'r gwasanaeth, dylid rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau cadw pellter cymdeithasol a'r defnydd priodol o fasgiau wyneb. Gellir dod o hyd i gyngor Llywodraeth Cymru ar deithio'n ddiogel yma.

**Toiledau**

Dylid cadw toiledau cludadwy a thoiledau y tu mewn i safleoedd ar agor a'u rheoli'n ofalus er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Gellir dod o hyd i ganllawiau yma ar sut i ddarparu toiledau diogel i'w defnyddio gan y cyhoedd.

**Arlwyo**

Datblygwyd canllawiau i'r sector lletygarwch ac maent ar gael gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol. Maent yn cynnwys canllawiau ar gyfleusterau arlwyo a all fod yn ddefnyddiol.

**Cyflenwad dŵr**

Os bydd adeiladau wedi bod ar gau neu wedi cael eu defnyddio'n llai aml yn ystod cyfnod pandemig COVID-19, gall dŵr llonydd gronni mewn systemau dŵr am nad ydynt wedi cael eu defnyddio, gan gynyddu'r risg o glefyd y llengfilwyr. Gellir dod o hyd i ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli dŵr a chlefyd y llengfilwyr yma.

## E. Hylendid, glanhau a rheoli haint

Mae unrhyw un sy'n gyfrifol am safle sydd ar agor yn ystod argyfwng COVID o dan ddyletswydd i gymryd mesurau rhesymol i gadw'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mor isel â phosibl. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i:

- gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o ddwy fetr yn cael ei gadw rhwng unigolion (ac eithrio'r rheini sydd o'r un aelwyd)
- cymryd mesurau rhesymol eraill i gadw'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws mor isel â phosibl (e.e. sicrhau hylendid ac osgoi trosglwyddo'r feirws wyneb yn wyneb)
- darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n dod i mewn i'r safle ynghylch sut i gadw'r risg mor isel â phosibl (e.e. drwy arwyddion a phosteri).

Rhwng pobl sydd mewn cysylltiad agos â'i gilydd a thrwy ddefnynnau a gynhyrchir pan fydd person sydd wedi'i heintio yn peswch neu'n tisian y caiff COVID-19 ei drosglwyddo'n bennaf. Gellir ei ledaenu hefyd drwy ddod i gysylltiad ag arwyneb neu wrthrych sydd â'r feirws arno.

Mae glanhau hyd at safon briodol yn helpu i leihau lledaeniad y coronafeirws (COVID-19). Dylid sefydlu trefn lanhau yn seiliedig ar yr asesiad risg a'r defnydd a wneir o'r adeilad. Bydd angen glanhau ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n aml ac unrhyw beth a gaiff ei gyffwrdd yn aml, yn enwedig os caiff ei gyffwrdd gan lawer o bobl, yn amlach nag arfer. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar lanhau hyd at y safon briodol yma. Os byddwch yn glanhau am fod achos hysbys neu achos a amheuir o COVID-19 yn eich gweithle, dylech ddilyn y canllawiau yma.

**Hylendid a gorchuddion wyneb**
Mae ymarfer hylendid dwylo da yn bwysig. Dylai fod sebon a dŵr ar gael i'r rheini sy'n defnyddio'r cyfleusterau olchi eu dwylo am o leiaf 20 eiliad neu dylid cynnig hylif diheintio dwylo iddynt wrth gyrraedd a gadael yr adeilad ac ar ôl peswch, tisian, chwythu eu trwyn neu ar ôl bod mewn ardal gyhoeddus. Gallai gwasanaethau gwaith ieuenctid hefyd ystyried:

- arwyddion a phosteri i wella ymwybyddiaeth o ddulliau golchi dwylo da, yr angen i olchi dwylo'n amlach, cyngor ar osgoi cyffwrdd â'ch wyneb ac i beswch neu disian i mewn i hances a'i rhoi mewn bin yn ddiogel, neu i'ch braich os nad oes gennych hances wrth law
- darparu hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad, fel ardaloedd derbynfa, yn ogystal ag ystafelloedd ymolchi
- darparu cyfleusterau sychu dwylo (tywelion papur neu sychwyr trydanol).

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddefnyddio gorchuddion wyneb yma.

**Gorchuddion wyneb a'r goblygiadau i unigolion ag unrhyw lefel o golled clyw**
Dylid ystyried effaith gwisgo gorchudd wyneb ar unigolyn byddar ag unrhyw lefel o golled clyw yn ofalus, gan fod llawer o bobl fyddar yn dibynnu ar allu gweld wyneb rhywun yn glir er mwyn gallu cyfathrebu. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar wedi darparu awgrymiadau ar gyfathrebu, a all fod yn ddefnyddiol i staff yn hyn o beth.

## F. Profi, Olrhain, Diogelu a'r hyn y dylid ei wneud os bydd achos a amheuir neu heintiad gwirioneddol

Ni ddylai'r sawl sy'n cael symptomau'r coronafeirws (yn cynnwys y rhai a restrir isod) fynd i leoliad gwaith ieuenctid, na defnyddio trafnidiaeth i leoliad gwaith ieuenctid.

- Peswch newydd a chyson.
- Tymheredd uchel.
- Colli eich synnwyr arogli neu eich synnwyr blasu arferol, neu newid i'r synhwyrau hynny (anosmia).

Ni ddylai'r unigolion hynny sy'n hunanynysu o ganlyniad i achos posibl neu achos a gadarnhawyd o'r coronafeirws (COVID-19) ar yr aelwyd fynychu. Ni ddylent fynychu chwaith os byddant wedi dod i gysylltiad ag unigolyn arall sydd â'r coronafeirws ac wedi cael cyngor i hunanynysu. Gellir dod o hyd i gyngor ar hunanynysu yma.

Y cyngor i unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed ac a warchodir neu sydd mewn 'grŵp mewn perygl' o hyd yw lleihau eu cyswllt ag eraill i'r eithaf er mwyn eu diogelwch eu hunain. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddant yn penderfynu mynychu gwasanaeth gwaith ieuenctid er gwaethaf y risg ychwanegol mae hyn yn ei chyflwyno iddynt, er budd eu llesiant eu hunain. Mewn achosion o'r fath, dylai'r bobl hyn, ac unrhyw un sydd gyda nhw, ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn llym.

Os bydd unrhyw un yn mynd yn sâl gyda symptomau COVID-19 mewn lleoliad, dylid ei anfon gartref a'i gynghori i ddilyn y canllawiau hunanynysu a gwneud cais i gael prawf coronafeirws.

Os bydd angen cyngor clinigol ar yr unigolyn, dylai fynd ar-lein i GIG 111 Cymru (neu ffonio 111 os nad oes ganddo fynediad i'r rhyngrwyd). Mewn argyfwng, ffoniwch 999 os yw'n ddifrifol wael neu wedi'i anafu neu os yw ei fywyd mewn perygl. Ni ddylai ymweld â'r meddyg teulu, fferyllydd, canolfan gofal brys neu ysbyty.

Dylai pobl eraill a all fod wedi dod i gysylltiad â'r person sydd wedi mynd yn sâl olchi eu dwylo'n drylwyr ar ôl ymwneud ag ef, ond nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau penodol eraill oni bai eu bod yn datblygu symptomau eu hunain. Os byddant yn datblygu symptomau, dylent ddilyn y canllawiau hunanynysu a gwneud cais i gael prawf coronafeirws.

Dylai'r ardaloedd a ddefnyddiwyd gan yr unigolion hyn gael eu glanhau'n drylwyr, yn unol â'r canllawiau a nodwyd uchod.

**Profi Olrhain Diogelu**

Mae strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru yn pennu'r dull o fynd i'r afael â'r coronafeirws, profi pobl yn y gymuned sydd â symptomau, olrhain y rheini sydd wedi dod i gysylltiad agos â phobl sydd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer y coronafeirws a diogelu teulu, ffrindiau a'n cymuned drwy hunanynysu.
Mae rhagor o wybodaeth am Profi, Olrhain, Diogelu ar gael, ynghyd â chanllawiau ar gadw cofnodion o staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr. Mae Canllawiau i gyflogwyr hefyd ar gael.

## G. Ystyriaethau unigol – cydweithwyr a phobl ifanc

Mae'n bwysig ystyried anghenion unigolion a bod yn glir ynghylch unrhyw ddisgwyliadau newydd. Dylid atgyfnerthu ymddygiadau gofynnol mewn modd cadarnhaol yn hytrach na stigmateiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio. Dylid nodi a chefnogi arwyddion o ofid, a cheisio cymorth dwys neu arbenigol lle bo angen. Rhaid cynnal y safonau uchel o ddiogelu gwasanaethau gwaith ieuenctid a oedd yn bodoli cyn y cyfyngiadau symud wrth i ni symud i leoliadau a modelau cyflawni newydd.

Mae llu o faterion newydd y gall fod angen eu hystyried. Gall hyn gynnwys unrhyw bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol y gall fod ar weithwyr ieuenctid a phobl ifanc, yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chyd-destun iechyd y cyhoedd. Gallai'r rhain gynnwys pryderon am y feirws, pwysau yn sgil bod ar ffyrlo neu golli gwaith, straen yn sgil cyfrifoldebau gofalu ychwanegol neu brofedigaeth, neu bryderon ynghylch dychwelyd i'r gwaith.

Felly, bydd yn bwysig ystyried polisïau adnoddau dynol a dulliau cymorth eich sefydliad a sicrhau eu bod wedi'u diweddaru ac yn adlewyrchu'r heriau newydd rydym yn eu hwynebu a'r cymorth y bydd ei angen ar staff o ganlyniad i hynny. Ymysg y syniadau i hyrwyddo lles y gall gwasanaethau fod am eu hymgorffori mae ardaloedd myfyrio, defnyddio gwasanaethau cwnsela a chynnig cyfleoedd i weithwyr rannu eu profiadau.

**Asesiadau risg unigol**
Drwy gydol y broses o ddarparu gwasanaethau, ac wrth baratoi ar eu cyfer, efallai y byddwch am ystyried cynnal asesiad risg o straen.

At hynny, ac wrth gynllunio ar gyfer cynyddu gweithgareddau, gall Adnodd asesu risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu i Gymru gyfan fod o gymorth i chi.

Mae'r Adnodd yn defnyddio canllawiau'r llywodraeth, a'r ymchwil, y dystiolaeth a'r data diweddaraf sydd ar gael i nodi ffactorau risg hysbys, yn cynnwys oedran, rhyw, ethnigrwydd, cyflyrau iechyd sylfaenol, Mynegai Màs y Corff ac unrhyw hanes teulu perthnasol mewn cysylltiad â COVID-19. Cyfuniad o'r ffactorau amrywiol hyn yn dod ynghyd sy'n cyfrannu at ddifrifoldeb yr heintiad.

Cynlluniwyd yr Adnodd ar gyfer y sawl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Fodd bynnag, anogir staff addysg i ddefnyddio'r Asesiad Risg, ac i'w gwblhau ar-lein drwy'r llwyfan e-ddysgu cenedlaethol Dysgu@Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu canllawiau sy'n benodol i'r sector ar gyfer addysg. Caiff hyn ei gwblhau ym mis Awst.

Efallai yr hoffech gyfeirio staff a phobl ifanc at y Pecyn cymorth iechyd meddwl pobl ifanc ar Hwb.

## H. Ystyriaethau ychwanegol

Efallai y bydd y sawl sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid am wella eu dealltwriaeth o ganllawiau eraill neu gyfeirio atynt, yn enwedig os byddant yn rhannu cyfleusterau â sefydliadau gwahanol. Ceir rhai enghreifftiau o ganllawiau a rheoliadau penodol isod:

Canolfannau cymunedol

[Darpariaeth gofal plant]

[Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg]

[Canllawiau ar feysydd chwarae ac ardaloedd chwarae]

[Mannau addoli]

[Chwaraeon a hamdden]

[Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth]

[Ysgolion]

[Addysg bellach]

Ceir rhagor o ddeunydd darllen ar yr wybodaeth wyddonol a lywiodd y broses o ddatblygu'r canllawiau yn Atodiad B. I'ch helpu i ddatblygu eich rhestr wirio eich hun er mwyn ehangu eich gwasanaethau neu ailagor eich canolfannau, gweler y rhestr wirio enghreifftiol sy'n gysylltiedig â'r canllawiau hyn yn Atodiad A.

## Atodiad A: Cynyddu gweithrediadau ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru – rhestr wirio enghreifftiol

Mae'r templed isod i'ch helpu i wneud eich penderfyniad ynghylch sut a phryd i ailagor neu ehangu eich gwasanaethau yn ddiogel, a chynllunio ar gyfer hynny. Mae gwaith ieuenctid yn sector amrywiol ac felly nid yw'r rhestr wirio hon yn rhestr gynhwysfawr o bopeth y mae'n rhaid i chi ei ystyried.

Os nad ydych yn teimlo y gallwch agor mewn ffordd ddiogel, wedi'i rheoli ni ddylech ailagor nes bydd prosesau priodol ar waith.

Dylid darllen y rhestr wirio ar y cyd â'r Canllawiau Gweithredu.

| Cyf (o'r canllawiau) | Teitl | Ydych chi'n siŵr eich bod wedi cwmpasu hyn? | Os nad ydych, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennych? |
|---|---|---|---|
| 2 | **Llywio gwaith cynllunio a'r broses gwneud penderfyniadau**<br><br>Ydych chi wedi darllen y canllawiau perthnasol sy'n rheoli eich gweithgaredd arfaethedig ac a ydych yn deall yr holl ddisgwyliadau/gofynion ychwanegol sydd arnoch? | | |
| 3A | **Ymgysylltu â phobl ifanc, y gweithlu a phartneriaid**<br><br>Ydych chi wedi datblygu a rhannu eich cynigion mewn partneriaeth â phobl ifanc, staff proffesiynol gwirfoddol a chyflogedig, a phartneriaid perthnasol? | | |
| 3B | **Cyfrifoldebau allweddol ac egwyddorion craidd**<br><br>Ydych chi'n deall canllawiau craidd iechyd y cyhoedd mewn perthynas ag iechyd, hylendid a chadw pellter cymdeithasol, a chanllawiau ar gadw'n ddiogel yn y gweithle, er mwyn sicrhau bod cyflogeion a chydweithwyr yn ddiogel i ddychwelyd i'r gwaith? Ydych chi'n deall eich cyfrifoldebau fel cyflogwr, gwybodaeth am wirfoddoli yn ystod pandemig y coronafeirws a sut i helpu'n ddiogel, a chyngor y llywodraeth ar warchod? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3C** | **Asesiad risg**<br><br>Ydych chi wedi cynnal asesiadau risg perthnasol? | | |
| 3D | **Cadw pellter cymdeithasol a phennu capasiti**<br><br>Ydych chi wedi ystyried effaith y gofynion cadw pellter cymdeithasol ar gapasiti'r gwasanaethau gwaith ieuenctid y gallwch eu darparu'n ddiogel?<br><br>Ydych chi wedi ystyried rheolaethau peirianyddol a gweinyddol a fydd yn helpu i leihau cysylltiadau rhwng unigolion a grwpiau? Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rheoli amseroedd cyrraedd, rhoi systemau unffordd ar waith, marciau llawr, neu rwystrau fel sy'n briodol.<br><br>Ydych chi wedi ystyried sut y bydd pobl ifanc a'r gweithlu yn teithio i gyrraedd eich gwasanaethau a, phan fyddant yno, unrhyw oblygiadau o ran y defnydd o doiledau, arlwyo, neu gyflenwad dŵr? | | |
| 3E | **3E. Hylendid, Glanhau a Rheoli Haint**<br><br>Ydych chi'n deall sut y caiff COVID-19 ei ledaenu a sut i lanhau i'r safon briodol? Os byddwch yn glanhau am fod achos hysbys neu achos amheuir o COVID-19 yn eich gweithle, dylech ddilyn y canllawiau yma.<br><br>Ydych chi'n deall diben gorchuddion wyneb a'u heffaith ar unigolion ag unrhyw lefel o golled clyw? | | |
| 3F | **Profi Olrhain Diogelu a'r hyn y dylid ei wneud os bydd achos a amheuir neu heintiad gwirioneddol**<br><br>Ydych chi'n gwybod beth yw symptomau cyffredin COVID-19? Ydych chi'n deall y canllawiau ar hunanynysu? Ydych chi'n gyfarwydd â'r canllawiau ar gyfer unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed ac sydd wedi'u gwarchod neu mewn 'grŵp sydd mewn perygl'? Ydych chi'n deall sut i wneud cais am brawf coronafeirws a sut i geisio gofal brys?<br><br>Ydych chi wedi ymgyfarwyddo â Profi, Olrhain, Diogelu, yn cynnwys y canllawiau ar gadw cofnodion o staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr a'r canllawiau i gyflogwyr? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3G | **Ystyriaethau unigol – cydweithwyr a phobl ifanc**<br><br>Ydych chi wedi ystyried anghenion unigol cydweithwyr a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gwasanaethau a ddarperir gennych? A yw eich polisïau adnoddau dynol a'ch dulliau cymorth wedi'u diweddaru? Ydych chi wedi ymgyfarwyddo â'r adnoddau sydd ar gael a all gefnogi asesiadau risg unigol? | | |

# Atodiad B: Cefnogi gwybodaeth wyddonol – deall trosglwyddiad, risgiau, a chamau lliniaru (yn cynnwys opsiynau ar gyfer cyflwyno gweithrediadau yn raddol)

Fel y mae, er mwyn i wasanaethau gwaith ieuenctid allu cynllunio'n briodol ar gyfer unrhyw gynnydd mewn gweithrediadau, ac i sicrhau diogelwch a llesiant pobl ifanc, cymunedau a staff gwaith ieuenctid proffesiynol gwirfoddol a chyflogedig wrth wneud hynny, mae'n hanfodol bod yr holl gynigion yn seiliedig ar ddealltwriaeth a rennir o COVID-19, y wyddoniaeth y tu ôl i drosglwyddiad a heintiad, a rolau cyfunol unigolion yn yr ymateb iechyd y cyhoedd. Mae'r ddealltwriaeth hon yn newid o ddydd i ddydd wrth i fwy o dystiolaeth gael ei chyflwyno a dylid troi at wefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Felly, yn dilyn ceir crynodeb lefel uchel o'r hyn a ddeellir ar adeg ysgrifennu'r canllaw hwn.

## Niwed i bobl Cymru yn gysylltiedig â COVID-19

Gall hyn ddigwydd mewn pedair ffordd ac nid yw'n gyfyngedig i'r niwed sy'n gysylltiedig â dal y feirws.

- Yn gyntaf, drwy niwed uniongyrchol i unigolion o haint a chymhlethdodau gan gynnwys yn achos y rheini sy'n datblygu salwch difrifol, gyda rhai ohonynt yn marw yn anffodus o ganlyniad i hynny.
- Yn ail, y niwed a achosir os yw gwasanaethau gan gynnwys y GIG yn methu ag ymdopi â'r pwysau oherwydd cynnydd sydyn yn y galw gan gleifion sydd â COVID-19 ar ysbytai, cyfleusterau gofal critigol a gwasanaethau allweddol eraill.
- Yn drydydd, y niwed o salwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19, er enghraifft os nad yw unigolion yn ceisio sylw meddygol am eu salwch yn ddigon cynnar a bod eu cyflwr yn gwaethygu o ganlyniad i hynny, neu yn fwy cyffredinol o'r newidiadau angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau'r GIG a wnaed yn ystod y pandemig yng Nghymru i roi terfyn dros dro ar weithgareddau nad ydynt yn hanfodol.
- Yn bedwerydd, y niwed economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol, er enghraifft yr effaith economaidd ar rai grwpiau economaidd-gymdeithasol os na allant weithio, yr effaith ar fusnesau sy'n gorfod cau neu sy'n wynebu cwymp yn y galw gan gwsmeriaid, effaith seicolegol y polisi o gadw pellter cymdeithasol ar y cyhoedd ynghyd â llawer o effeithiau eraill.

Bydd deall y mathau hyn o niwed, a'r gwaith gofalus o gydbwyso gweithgareddau a all gynyddu'r risg y byddant yn digwydd, yn helpu sefydliadau wrth gynllunio ar gyfer cynyddu eu gweithrediadau.

**Trosglwyddiad**
Er bod y dystiolaeth yn datblygu, mae bellach yn amlwg mai cysylltiad agos am gyfnod hir mewn amgylcheddau dan do sy'n bennaf cyfrifol am drosglwyddo COVID-19. Mewn mannau gorlawn dros gyfnodau hir y ceir y risg uchaf o drosglwyddiad. At hynny, y llwybrau pwysicaf ar gyfer trosglwyddiad yw yn uniongyrchol o berson i berson drwy ddiferion ac yn anuniongyrchol drwy arwynebau a gwrthrychau. Gall fod rhywfaint o dystiolaeth hefyd o drosglwyddiad drwy aerosol mewn amgylcheddau ag awyru gwael.

Cadw pellter corfforol yw un o'r ffyrdd pwysicaf o atal trosglwyddiad ac os na ellir cadw pellter o ddwy fetr wyneb yn wyneb, argymhellir yn gryf y dylid mabwysiadu mesurau ychwanegol yn cynnwys gorchuddion wyneb a lleihau hyd yr amlygiad (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod gan olau'r haul rôl allweddol mewn lleihau hyfywedd y feirws yn yr awyr agored ac y dylid defnyddio ardaloedd awyr agored i'r eithaf. Mae'r feirws yn goroesi am gyfnod hwy dan do ac felly mae angen glanhau ardaloedd a gaiff eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd yn ogystal â sicrhau bod awyr iach yn dod i mewn o'r tu allan.

Y ddealltwriaeth bresennol yw mai yn ystod y ddau ddiwrnod cyn iddo gael symptomau amlwg y gall unigolyn fod ar ei fwyaf heintus, felly mae gan bawb rôl i'w chwarae i leihau'r risg o amlygiad drwy ymddygiadau ac arferion effeithiol.

Er mwyn i'r frwydr yn erbyn COVID-19 fod ar ei mwyaf effeithiol, rhaid i bawb gymryd eu cyfrifoldeb o ran iechyd y cyhoedd o ddifrif ac yn gwybod beth i'w wneud. Mae ymgysylltu a chyfathrebu yn allweddol.

**Effaith y cyfyngiadau symud ar gyfraddau trosglwyddiadau**
Er bod y cyfyngiadau symud a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi bod yn anodd i lawer, ac wedi effeithio'n sylweddol ar y ffordd rydym yn byw ein bywydau, maent wedi cael effaith sylweddol ar gyfraddau trosglwyddiadau, lefelau heintio, a nifer y marwolaethau. Ar adeg ysgrifennu'r canllawiau hyn, mae cyfradd twf y feirws yn gostwng ac mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i ddilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau symud.

Er bod cydymffurfio â'r mesurau hyn wedi bod yn sefydlog ar y cyfan hyd yma, mae'n bwysig nodi ei bod yn cymryd hyd at dair wythnos cyn y gellir canfod newidiadau mewn cyfraddau trosglwyddiadau. Felly, mae angen parhaus i ddilyn camau i lacio'r cyfyngiadau symud mewn ffordd a reolir yn ofalus gan fonitro ymddygiadau yn briodol. Mae hefyd yn bwysig blaengynllunio dulliau gweithredu mewn ymateb i ail don bosibl o COVID-19 ar lefel leol neu genedlaethol.

**Effaith ar grwpiau gwahanol**
Mae'r dystiolaeth hyd yma yn dangos bod y feirws yn cael effaith anghymesur ar rai grwpiau o gymdeithas penodol. Mae gan gyflyrau iechyd cronig, statws economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd ac oedran oll rôl i'w chwarae. Mae'n bwysig deall y risgiau hyn wrth gynllunio unrhyw gynnydd mewn gweithrediadau fel bod y rheini sy'n wynebu risg uwch o ganlyniadau gwael o ganlyniad i heintiad yn cael ystyriaeth arbennig, ychwanegol yn y broses gynllunio, yn ogystal â chymryd camau i ddiogelu pob unigolyn rhag cael ei heintio.

**Mynd i'r afael â'r lledaeniad/lleihau'r trosglwyddiad**
Fel y nodir uchod mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gwasanaethau'n ddiogel er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gamau gweithredu a gymerir yn cyfrannu at gynnydd yn nhrosglwyddiad y feirws. Mae hyn yn golygu bod nifer o opsiynau ar gael i ni ac mae'r Hierarchaeth o Reolaethau yn nodi'r rhain yn nhrefn effeithiolrwydd.

Mae'r hierarchaeth o reolaethau yn ffordd o flaenoriaethu mesurau rheoli risg yn seiliedig ar ba mor effeithiol y mae gwahanol fathau o reolaethau yn lleihau risgiau. Dylid asesu mesurau lleihau risg yn nhrefn y flaenoriaeth a roddir yn yr hierarchaeth; mae'n golygu mwy na dim ond neidio i'r mesur rheolaeth hawsaf i'w weithredu. Mae mathau o reolaethau yn uwch i fyny'r hierarchaeth yn fwy effeithiol wrth leihau risgiau na'r rhai sy'n is i lawr. Dylai rheolaethau fod yn ymarferol i'w rhoi ar waith ac, yn ddelfrydol, dylid gallu eu cynnal yn hawdd dros amser.

Mae'n hanfodol cofio mai anaml y bydd yn ymarferol dileu'r risg yn llwyr. Dylai'r cyfuniad o reolaethau a gyflwynir anelu at leihau'r risg gymaint ag y bo'n rhesymol ymarferol gan roi blaenoriaeth i ymyriadau strwythurol, amgylcheddol dros rai lefel unigol.

Wrth gwrs, yn ogystal ag ystyried risgiau trosglwyddiadau, mae angen cydbwyso'r rhain yn erbyn risgiau i iechyd a llesiant a datblygiad ehangach. Yn y pen draw, bydd hyblygrwydd a dull pwrpasol o ymateb i'r risgiau hyn wrth i wasanaethau allu gwneud hynny.

Wrth ystyried sut i leihau'r risg o drosglwyddiadau, argymhellir y dylai gwasanaethau ystyried y canlynol.

1. Dileu: Ailgynllunio'r gweithgaredd er mwyn sicrhau bod y risg yn cael ei dileu.
2. Amnewid: Cynnal gweithgaredd arall yn lle'r gweithgaredd hwnnw er mwyn lleihau'r risg. Mae angen gofalu na chaiff peryglon newydd eu cyflwyno yn sgil hyn.
3. Rheolaethau peirianyddol: Cynllunio mesurau sy'n helpu i reoli neu liniaru risg.
4. Rheolaethau gweinyddol: Nodi a gweithredu'r gweithdrefnau er mwyn gwella diogelwch.
5. Ar ôl mynd drwy'r broses hon, dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol lle mae canllawiau penodol yn nodi neu'n argymell hyn.

**Ar y camau arfaethedig i ddychwelyd i addysg ffurfiol**
Bydd y cyngor ar ddychwelyd i'r ysgol a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf gan y Gell Cyngor Technegol o ddiddordeb arbennig i wasanaethau gwaith ieuenctid. Roedd y cyngor hwn yn glir – dylai ysgolion yng Nghymru gynllunio i agor ym mis Medi gyda 100 y cant o'r dysgwyr yn bresennol yn gorfforol ar safleoedd ysgolion, yn amodol ar ostyngiad cyson a pharhaus ym mhresenoldeb COVID-19 yn y gymuned, a mesurau priodol i ddiogelu staff a phlant, yn cynnwys:

- proses olrhain cysylltiadau effeithiol
- ysgolion yn 'ddiogel mewn perthynas â COVID'
- y gallu i roi mesurau cyfyngu priodol ar waith pan fydd achosion yn digwydd
- paratoadau ar waith i addysgu plant o bell os bydd angen.

Er bod y cyngor hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch yr hyn rydym yn ei wybod am blant, cyfraddau heintio a throsglwyddiadau, nid yw'r risgiau cysylltiedig yn cyfateb ar draws y grŵp oedran rhwng 0 a 18. Mae'n bwysig nodi hyn gyda gwasanaethau gwaith ieuenctid sy'n gweithio'n bennaf â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Mae'n ymddangos bod cyfraddau trosglwyddiadau ymysg plant oedran cynradd yn arbennig o isel, ac yn sgil hyn, roedd y Gell Cyngor Technegol yn teimlo y gallai argymell y gall y plant hyn fod yn ddiogel mewn perthynas â COVID gan ddefnyddio rheolaethau mwy hyblyg na phellter o ddwy fetr, fel seddi yn wynebu'r un cyfeiriad.

Fodd bynnag, nododd y cyngor hefyd fod plant oedran uwchradd yn debygol o fod angen lleihau cysylltiadau cyffredinol o ddydd i ddydd 40 i 60 y cant er mwyn cynnal diogelwch mewn perthynas â COVID, a/neu gadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr, neu gynnal 'grwpiau diogel mewn perthynas â COVID' fesul dosbarth hyd at uchafswm o 10 gan osgoi cymysgu.

**Goblygiadau i'r gwasanaethau gwaith ieuenctid**
Er bod angen mwy o ddata i ddeall cyfraddau trosglwyddiadau yn llawn, ynghyd ag effaith heintiad ar draws grwpiau oedran gwahanol, a gyda gweithgareddau y tu hwnt i gatiau'r ysgol yn ychwanegu at ddysgwyr yn cymysgu (gyda'i gilydd a gydag oedolion), mae'r cyngor presennol yn glir ac mae iddo oblygiadau sylweddol i wasanaethau gwaith ieuenctid. O ystyried bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn rhoi cymorth i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, ar yr adeg hon, **bydd angen cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr er mwyn helpu diogelwch mewn perthynas â COVID mewn lleoliadau gwaith ieuenctid, ar gyfer pobl ifanc a staff.**

**Cynllunio ar gyfer y dyfodol**
Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, mae'n dal yn bosibl y bydd tonnau o heintiad neu achosion ar wahân yn y dyfodol, ac mae hyn yn golygu bod angen i ni gynllunio ymlaen llaw er mwyn gallu ymateb yn ystwyth. Gallai ail don dros y gaeaf arwain at niferoedd uwch o bobl yn cael eu heintio oherwydd y tywydd oerach a'r nifer uwch o achosion o gyflyrau tymhorol eraill, sy'n golygu ei bod yn anoddach canfod COVID-19. Mae hyn yn golygu bod angen paratoi cynlluniau y gellir eu cynyddu neu eu lleihau yn unol â chyd-destun iechyd y cyhoedd. Mae hefyd yn golygu bod angen i ni gydbwyso risgiau uniongyrchol heintiad yn ofalus â'r risgiau hynny i grwpiau penodol o bobl yn sgil y ffaith na allant fanteisio ar gymorth.

**Cynyddu unrhyw weithrediadau yn raddol ac ystyried dull cyflawni cyfunol**

> "Mae'r cyfnod hwn wedi dangos bod angen i ni allu symud yn gyflym a gweithio'n hyblyg. Pan fyddwn yn dod allan o'r cyfnod hwn, mae angen i ni allu ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd newydd" – Llais person ifanc

Mae'n amlwg nad yw'r cyngor gwyddonol yn cefnogi rhoi caniatâd i wasanaethau gwaith ieuenctid ailagor ledled y wlad, ar yr un pryd, na dychwelyd i'r sefyllfa oedd yn bodoli cyn y cyfyngiadau symud. Er bod y mesurau wedi llacio, ar adeg ysgrifennu, mae tystiolaeth newydd yn cael ei chyflwyno drwy'r amser ac mae nifer o fesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith o hyd, a hynny'n briodol. Gyda'r risg bosibl o donnau o'r haint yn dychwelyd yn y dyfodol, os bydd gwasanaethau gwaith ieuenctid yn gallu sicrhau rhywfaint o barhad ar gyfer pobl ifanc ochr yn ochr â newidiadau posibl yng nghyd-destun iechyd y cyhoedd, bydd angen cynllunio'n ofalus er mwyn datblygu modelau cyflawni y gellir eu cynyddu neu eu lleihau yn ôl yr angen.

Ar yr adeg hon, mae'n bwysig cydnabod bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn amrywiol, a bod gan lawer ohonynt amgylchiadau unigryw y mae'n rhaid eu hystyried wrth fesur eu gallu i addasu neu gyflwyno lefelau gweithgaredd gwahanol yn raddol. Yn y pen draw, gall yr amgylchiadau hyn bennu eu gallu i ymateb yn ystwyth ac yn unol â chyd-destun iechyd y cyhoedd. Felly, nid yw'r canllawiau hyn yn ceisio

rhagnodi un dull sy'n addas i bawb. Yn hytrach maent yn ceisio nodi egwyddorion cyffredin y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid fod am eu hystyried.

Y ffordd symlaf o ystyried camau gweithgarwch yw mabwysiadu dull goleuadau traffig wrth gategoreiddio gweithgaredd. Yn yr enghraifft dros y dudalen, rydym yn defnyddio system 'Cyfyngiadau Symud, Coch, Oren, Gwyrdd' sy'n nodi, at ddibenion dangosol yn unig, sut y gellid cyflwyno gwahanol fathau o gyfleoedd a phrofiadau gwaith ieuenctid yn ddiogel ac yn unol â chyd-destun iechyd y cyhoedd ar y pryd.

Yn ogystal ag ystyried yr angen i gynyddu gweithrediadau yn raddol, a chynllunio ar gyfer hynny, bydd hefyd angen i wasanaethau gwaith ieuenctid ystyried y ffordd y gall dull cyflawni cyfunol gefnogi parhad rhwng y camau gwahanol a nodir uchod. Gallai hyn gynnwys defnyddio technoleg ddigidol a gwybodaeth ieuenctid ochr yn ochr â gwaith wyneb yn wyneb fel bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i ymgysylltu mewn gwaith ieuenctid drwy gyfryngau gwahanol wrth i gyd-destun iechyd y cyhoedd newid.

| **Cyfyngiadau symud** | **Coch** | **Oren** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|---|
| Yr amodau llymaf a roddir ar waith gyda theithio a gwasanaethau hanfodol yn unig a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol llymaf a roddir ar waith er mwyn rheoli lledaeniad y feirws.<br><br>Dull posibl o gynnal gwaith ieuenctid dan yr amodau hyn:<br><br>- Ffôn.<br>- Digidol – un i un, gwaith grŵp bach, clybiau ieuenctid a gweithgareddau ar-lein gan ddefnyddio cyfryngau digidol a thechnoleg.<br>- Gwybodaeth ieuenctid – gwybodaeth ac arwyddion wedi'u targedu at bobl ifanc, wedi'u llywio a'u datblygu gan bobl ifanc.<br>- Gwaith ieuenctid mewn partneriaeth â gwasanaethau brys neu hanfodol dim ond os ystyrir bod hynny'n briodol ac o dan yr amodau llymaf. | Y mesurau llymaf yn cael eu llacio rywfaint, gan ganiatáu symud yn lleol, a chynyddu'r gwasanaethau hanfodol wedi'u targedu a ddarperir o dan reolau cadw pellter cymdeithasol llym.<br><br>Dull posibl o gynnal gwaith ieuenctid dan yr amodau hyn:<br><br>Fel y nodir mewn cam cynharach a:<br>- Gwaith ieuenctid ar wahân – wedi'i leoli ar y stryd neu yn yr awyr agored yn bennaf ar sail un i un oni fydd darpariaeth hanfodol wedi'i thargedu yn ofynnol ac wedi'i chymeradwyo.<br>- Gwaith un i un yn yr awyr agored neu dan do drwy apwyntiad yn unig os ystyrir bod hynny'n hollol hanfodol ac ar ôl cael cymeradwyaeth i barhau. | Cyflwyno rheolau mwy hyblyg sy'n rheoli symudiadau, darparu mwy o wasanaethau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol nad ydynt yn hanfodol mewn ffordd ddiogel mewn perthynas â COVID gan ddilyn canllawiau llym, gyda chyfyngiadau ar ymgynnull a mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.<br><br>Dull posibl o gynnal gwaith ieuenctid dan yr amodau hyn:<br><br>Fel y nodir mewn cam cynharach a:<br>- Cyflwyno mwy o weithgareddau nad ydynt yn hanfodol yn raddol.<br>- Gwaith ieuenctid un i un mewn canolfannau/ysgolion/adeiladau cymunedol yn unol â'r rheoliadau.<br>- Gwaith grŵp bach mewn canolfannau/ysgolion/adeiladau cymunedol yn unol â'r rheoliadau.<br>- Gwaith grŵp bach yn yr awyr agored yn unol â'r rheoliadau. | Rhyddid i symud, ailgyflwyno'r holl wasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol (er gyda chapasiti cyfyngedig neu ragofalon ychwanegol ar waith) ar yr amod eu bod yn ddiogel mewn perthynas â COVID ac y gellir bodloni mesurau cadw pellter cymdeithasol.<br><br>Dull posibl o gynnal gwaith ieuenctid dan yr amodau hyn:<br><br>Fel y nodir mewn cam cynharach a:<br>- Gwaith grŵp mwy mewn canolfannau. ieuenctid/ysgolion/lleoliadau cymunedol naill ai dan do neu yn yr awyr agored.<br>- Clybiau ieuenctid mynediad agored dan do.<br>- Pob gweithgaredd sy'n ddiogel mewn perthynas â COVID ac a gafodd asesiad risg priodol yn unol â'r rheoliadau cyfredol. |